

Uwch Dribiwnlys – Siambr Mewnfudo a Lloches

Nodiadau canllaw ar lenwi ffurflen hawlio Adolygiad Barnwrol

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon os yw eich hawliad yn cynnwys her o fath a ddisgrifir ym mharagraff 3 o gyfarwyddyd yr Arglwydd Brif Ustus dyddiedig 21 Awst 2013, fel y'i diwygiwyd (ynghlwm) neu os yw eich hawliad yn ymwneud â her ynghylch penderfyniad arall nad yw o fewn paragraff 1 o'r cyfarwyddyd. Darllenwch yr adran gwybodaeth ychwanegol ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gweler isod am nodiadau i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen. Dylech ddarllen y nodiadau sy'n berthnasol i bob adran yn ofalus cyn dechrau llenwi'r adran benodol honno.

Os oes angen mwy o le arnoch i roi'ch atebion, defnyddiwch ddalen arall o bapur, gan nodi'n glir at ba adran y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ati. Os nad oes gennych yr holl ddogfennau neu wybodaeth sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich hawliad, ni ddylech adael i hyn eich atal rhag anfon (drwy'r post a dalwyd amdano yn barod neu drwy gyfnewid dogfennau) neu fynd â'r ffurflen i'r Uwch Dribiwnlys o fewn yr amser cywir yn y cyfeiriad canlynol:

Uwch Dribiwnlys y Siambr Mewnfudo a Lloches

Field House

15-25 Breams Building

Llundain EC4A 1DZ

DX: 309301 Strand 6

Llenwch y ffurflen mor gyflawn â phosibl a darparwch y dogfennau sydd gennych. Bydd y nodiadau i adran 9 yn esbonio mwy am yr hyn y bydd angen i chi ei wneud yn yr amgylchiadau hyn. **Am wybodaeth ynghylch llenwi'r ffurflen yn Gymraeg a swyddfeydd rhanbarthol y Tribiwnlys, gweler:**

www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about

Terfyn Amser ar gyfer gwneud hawliad

- Oni bai bod Rhan 5 o Gyfarwyddiadau Ymarfer Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd o'r enw 'Immigration Judicial Review in the Immigration and Asylum Chamber of the Upper Tribunal' yn berthnasol mewn perthynas â gohirio symud, rhaid i'r hawliad gael ei gyflwyno'n **brydlon a heb fod yn hwyrach na thri mis** ar ôl dyddiad y penderfyniad, y weithred, neu'r gwall y mae'r cais yn ymwneud ag o.

Os bydd y cais yn herio penderfyniad yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, gellir ei wneud yn hwyrach na'r amser uchod, os caiff ei wneud **o fewn un mis** ar ôl y dyddiad pan anfonodd y Tribiwnlys resymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad neu hysbysiad bod cais 'mewn pryd' yn cael ei osod o'r neilltu wedi bod yn aflwyddiannus.

Sylwch: Mae Rhan 5 o Gyfarwyddiadau Ymarfer Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd o'r enw 'Immigration Judicial Review in the Immigration and Asylum Chamber of the Upper Tribunal' i'w gweld ar y wefan: (www.judiciary.gov.uk/publications/practice-statement-on-immigration-judicial-review-in-the-immigration-and-asylum-chamber-of-the-upper-tribunal). Os oes angen copi caled o'r cyfarwyddiadau ymarfer hyn arnoch, cysylltwch â'r Uwch Dribiwnlys neu eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen dylech gysylltu â chyfreithiwr neu eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol

Section 1 of claim form

Manylion y ceisydd (ceiswyr) a'r atebydd (atebyddion)

Rhowch enw(au) llawn a chyfeiriad(au) pob unigolyn y dylid anfon y dogfennau sy'n ymwneud â'r adolygiad barnwrol atynt. Rhowch wybodaeth gyswllt e.e. rhifau ffôn ac unrhyw gyfeirnodau eraill hefyd.

Sylwch, os mai'r atebydd yw Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref (Y Swyddfa Gartref), yr enw a'r cyfeiriad perthnasol ar gyfer y gwasanaeth yw:

Litigation Allocation Unit

6 New Square

Bedfont Lakes

Feltham

Middlesex

TW14 8HA

Adran 2

Manylion partion eraill sydd â budd

Rhaid cynnwys manylion llawn y partion sydd â budd yn y ffurflen hawlio; dylech roi manylion unrhyw bobl yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad rydych eisiau ei herio.

Adran 3

Manylion y penderfyniad sy'n destun adolygiad barnwrol

Rhowch fanylion y penderfyniad sy'n destun adolygiad barnwrol. Rhowch enw'r unigolyn neu'r corff y mae ei benderfyniad yn destun adolygiad barnwrol, a'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad.

Adran 4

Caniatâd am Adolygiad Barnwrol

Rhaid llenwi'r adran hon. Rhaid i chi ateb pob cwestiwn

a rhoi rhagor o fanylion lle bo angen.

Adran 5

Datganiad manwl o seiliau

Nodwch yn fanwl y seiliau pam yr ydych yn dadlau y dylid rhoi'r penderfyniad o'r naill du neu ei amrywio.

Adran 6

Rhwymedi

Llenwch yr adran hon gan ddatgan pa rwymedi yr ydych yn ei geisio:

- (a) gorchymyn gorfodol;
- (b) gorchymyn gwaharddedig;
- (c) gorchymyn dileu; neu
- (d) gwaharddiad sy'n atal unigolyn rhag gweithredu mewn unrhyw swydd lle nad yw'n gymwys i wneud hynny.

Efallai bydd hawliad am iawndal yn rhan o hyn, dim ond os ydych yn ceisio un o'r gorchmynion a rhestrir uchod.

Adran 7

Ceisiadau eraill

Yn yr adran hon efallai y byddwch yn dymuno gwneud cais ychwanegol i'r Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â'ch hawliad am Adolygiad Barnwrol, gan gynnwys unrhyw geisiadau am estyniad amser. Gellir gwneud unrhyw geisiadau eraill mewn cais ar wahân (ffurflen T484). Gallwch gael y ffurflen hon gan yr Uwch Dribiwnlys neu oddi ar ein gwefan yn http://hmctsformfinder.justice.gov.uk/HMCTS/GetForm.do?court_forms_id=4403

Adran 8

Datganiad o ffeithiau a ddibynnir arnynt

Dylid nodi'r ffeithiau yr ydych yn seilio'ch hawliad arnynt yn yr adran hon o'r ffurflen, neu mewn dogfen ar wahân sydd wedi'u hatodi i'r ffurflen. Dylai gynnwys rhestr wedi'i rhifo o'r pwyntiau y bwriadwch ddibynnu arnynt yn y gwrandawriad. Dylech gyfeirio ym mhob pwynt at unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyflwyno i gefnogi'ch cais.

Adran 9

Dogfennau ategol

Os nad ydych wedi gallu cael gafael ar unrhyw rai o'r dogfennau a restrir yn yr adran hon o fewn y terfynau amser a gyfeiriwyd atynt uchod, llenwch yr hysbysiad orau ag y gallwch, a sicrhewch eich bod yn cyflwyno eich hysbysiad ar amser. Nodwch y rhesymau pam nad ydych wedi gallu cael gafael ar unrhyw rai o'r dogfennau na'r wybodaeth, a rhoiwch y dyddiad rydych yn disgwyl y byddant ar gael. **Peidiwch ag oedi cyn cyflwyno'ch**

hawliad am Adolygiad Barnwrol.

Gwybodaeth ychwanegol

Ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen gais i'r Uwch Dribiwnlys, rhaid cyflwyno copi o'r cais gan nodi cyfeirnod yr achos ac unrhyw ddogfennau ategol i'r atebydd ac unrhyw barti â budd a rhaid i chi ddarparu ffurflen T485 i'r Uwch Dribiwnlys **o fewn 9 diwrnod Bydd methu â gwneud hynny'n arwain at ddileu'r achos yn awtomatig.** Pe digwyddai hynny, bydd arnoch angen gwneud cais i'r Uwch Dribiwnlys, ynghyd â'r ffi ofynnol, er mwyn adfer yr achosion o fewn un mis ar ôl y dyddiad yr oedd yr Uwch Dribiwnlys wedi anfon hysbysiad o'r dileu atoch.

Os yw eich hawliad yn cynnwys her o fath a ddisgrifir ym mharagraff 3 o Gyfarwyddyd yr Arglwydd Brif Ustus, neu nad yw ym mharagraff 1 y cyfarwyddyd, dylid cyflwyno eich hawliad ar ffurflen hawlio Swyddfa'r Llys Gweinyddol (N461) a'i hanfon i:

Swyddfa'r Llys Gweinyddol

Ystafell C324

Y Llysoedd Barn Brenhinol

Strand

Llundain

WC2A 2LL

Birmingham Civil Justice Centre

Priory Courts

5th Floor

33 Bull Street

Birmingham B4 6DS

Canolfan Llysoedd Sifil Caerdydd

2 Stryd y Parc

Caerdydd

CF10 1ET

Leeds Combined Court

1 Oxford Row

Leeds LS1 3BG

Manchester Civil Justice Centre

1 Bridge Street West

Manchester M60 9DJ

Am wybodaeth ynghylch llenwi'r ffurflen yn Gymraeg a swyddfeydd rhanbarthol y Tribiwnlys, gweler www.justice.gov.uk/courts/rcj-rolls-building/administrative-court

Os yw eich hawliad yn herio penderfyniad y Tribiwnlys
Haen Gyntaf, mae'n rhaid i chi ei gyflwyno i:

Tîm Cyfathrebiadau a Gwasanaeth Cwsmer
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ